Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen, anfonwch hi i'ch swyddfa cofrestru etholiadol. I ddod o hyd i'w manylion, ewch i **comisiwnetholiadol.org.uk/cy/pleidleisiwr** a nodwch eich cod post. Gallwch ddod o hyd i'w cyfeiriad ar gyfer dychwelyd eich ffurflen a'u manylion cyswllt os bydd angen help arnoch.

Pleidleisio drwy ddirprwy

Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu os na allwch fwrw eich pleidlais yn bersonol, gallwch gael rhywun yr ydych yn ymddiried ynddynt (eich dirprwy) i fwrw eich pleidlais drosoch. I bleidleisio drwy ddirprwy, mae'n rhaid eich bod wedi'ch cofrestru i bleidleisio.

Dim ond yng Nghymru y mae'r ffurflen hon yn berthnasol. Gallwch ei ddefnyddio i wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy os na allwch bleidleisio yn bersonol oherwydd anabledd. Gallwch hefyd ei ddefnyddio os ydych wedi cael eich cadw mewn ysbyty yn unol ag adrannau sifil Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae'n rhaid i chi gadarnhau gyda'ch dirprwy eu bod yn gymwys i bleidleisio ar eich rhan. Rhaid iddynt fod wedi'u cofrestru i bleidleisio a bod yn gymwys i bleidleisio yn y math o etholiad a gynhelir.

Mae hefyd rheolau ynghylch faint o bobl y gall rhywun fod yn ddirprwy ar eu cyfer a phwy y gallant fod yn ddirprwy ar eu cyfer.

Yn **etholiadau'r Senedd ac etholiadau cynghorau lleol:**

gall person fod yn ddirprwy ar gyfer unrhyw nifer o berthnasau agos a hyd at 2 berson nad ydynt yn berthnasau agos mewn etholiad. Priod, partner sifil, rhiant, nain/mam-gu neu daid/tad-cu, brawd, chwaer, plentyn, ŵyr neu wyres yw perthnasau agos yr ymgeisydd.

Yn **etholiadau Senedd y DU ac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu:**

gall person fod yn ddirprwy ar gyfer hyd at 4 o bobl. Ni all mwy na 2 o'r bobl hynny fod yn byw yn y DU a rhaid i'r gweddill fod naill ai'n bleidleiswyr tramor neu'n bleidleiswyr sy'n gwasanaethu. Mae etholiadau Senedd y DU yn cynnwys etholiadau cyffredinol Senedd y DU, is-etholiadau, a deisebau adalw.

Gallwch lenwi'r ffurflen hon i benodi un dirprwy ar gyfer pob etholiad y mae gennych hawl i bleidleisio ynddynt. Mae'n rhaid i'ch dirprwy fodloni'r gofynion ar gyfer yr holl etholiadau hynny.

Gallwch ddewis gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy barhaol, penodi dirprwy ar gyfer cyfnod penodol, neu benodi dirprwy ar gyfer un neu fwy o etholiadau a gynhelir ar yr un diwrnod.

Os ydych chi eisiau penodi dirprwyon gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o etholiad, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol.

I gael rhagor o wybodaeth am bleidleisio drwy ddirprwy a ffyrdd eraill o wneud cais, ewch i **comisiwnetholiadol.org.uk/cy/pleidlaisdrwyddirprwy**

Sut mae gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy?

- Gofynnwch i rywun sy'n fodlon ac yn gallu bod yn ddirprwy i chi a phleidleisio ar eich rhan.
- Llenwch y ffurflen gais am bleidlais drwy ddirprwy. Mae'n rhaid i chi roi rheswm pam fod angen i chi bleidleisio drwy ddirprwy ac efallai y bydd angen i berson cymwys gefnogi eich cais. Gweler y nodiadau ar dudalen 2 am wybodaeth ar bwy all gefnogi eich cais.
- Sicrhewch fod pob adran ofynnol o'r ffurflen wedi'i chwblhau a rhowch eich dyddiad geni a'ch llofnod. Mae angen yr wybodaeth hon i atal twyll. Os nad ydych yn gallu llofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol.
- Os oes gwybodaeth sydd ar goll neu'n anghywir yn eich cais, bydd eich swyddfa cofrestru etholiadol yn cysylltu â chi. Efallai y bydd angen i chi ddarparu dogfennau ategol ac efallai y bydd yn cymryd mwy o amser i brosesu eich cais.
- Dychwelwch eich ffurflen i'ch swyddfa cofrestru etholiadol.

Wrth wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy newydd, mae'n rhaid i chi ddychwelyd eich ffurflen gais erbyn **5pm, 6 diwrnod gwaith cyn yr etholiad**.

Wrth newid neu ganslo pleidlais bost, pleidlais drwy ddirprwy neu bleidlais bost drwy ddirprwy, mae'n rhaid i chi ddychwelyd eich ffurflen gais erbyn **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.**

Os nad ydych wedi'ch cofrestru i bleidleisio, mae'n rhaid i chi wneud cais i gofrestru cyn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy.

Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i bleidleisio yw **hanner nos, 12 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.** Gallwch gofrestru i bleidleisio ar-lein yn **gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio** neu gallwch gysylltu â'ch swyddfa cofrestru etholiadol i ofyn am ffurflen gofrestru bapur.

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi ddychwelyd y ffurflen hon?

- Bydd eich swyddfa cofrestru etholiadol yn cadarnhau a yw eich cais wedi'i dderbyn neu ei wrthod.
- Bydd eich dirprwy yn cael cerdyn pleidleisio drwy ddirprwy, yn dweud wrthynt ble a phryd i bleidleisio ar eich rhan.
- Dylech ddweud wrth eich dirprwy sut yr hoffech iddynt bleidleisio ar eich rhan, er enghraifft, pa ymgeisydd, pa blaid neu ba ganlyniad.
- Mae'n rhaid i'ch dirprwy fynd i'ch gorsaf bleidleisio chi i bleidleisio ar eich rhan. Os na all eich dirprwy gyrraedd yr orsaf bleidleisio, gallant wneud cais i bleidleisio ar eich rhan drwy'r post. Gallant wneud cais i wneud hyn hyd nes **5pm, 11 diwrnod gwaith cyn yr etholiad.** Gallant gysylltu â'ch swyddfa gofrestru etholiadol am ragor o fanylion ac i ofyn am ffurflen gais ar gyfer pleidlais bost drwy ddirprwy.
- Os allwch fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio, gallwch bleidleisio'n bersonol ar yr amod nad yw eich dirprwy wedi gwneud hynny eisoes neu nad ydynt wedi gwneud cais i bleidleisio ar eich rhan drwy'r post.

Pwy all gefnogi fy nghais?

Os ydynt yn gofalu amdanoch, neu'n eich trin ar gyfer yr anabledd, gall eich cais gael ei gefnogi gan y canlynol:

- ymarferydd meddygol cofrestredig (gan gynnwys deintydd, optegydd, fferyllydd, osteopath, ceiropractydd neu seicolegydd)
- nyrs cofrestredig
- gweithiwr iechyd proffesiynol.

Os ydynt yn gofalu amdanoch, yn eich trin, neu wedi trefnu gofal neu gymorth mewn perthynas â'r anabledd gall eich cais gael ei gefnogi gan:

- weithiwr cymdeithasol cofrestredig.

Fel arall, gall eich cais gael ei gefnogi gan y canlynol:

- rheolwr, neu eu cynrychiolydd awdurdodedig, yn yr ysbyty cofrestredig lle rydych yn cael eich trin
- person sydd wedi'i gofrestru fel rhywun sy'n rhedeg y cartref gofal preswyl rydych yn byw ynddo
- warden y safle rydych yn byw ynddo sy'n cael ei ddarparu ar gyfer pensiynwyr neu bobl anabl.

Os ydych wedi'ch cofrestru'n ddall gan awdurdod lleol ac os yw eich cais yn seiliedig ar eich dallineb, nid oes angen i chi gael cefnogaeth ar gyfer eich cais. Mae'n rhaid i chi gwblhau rhan 2B.

Os ydych yn derbyn taliad budd-dal (a restrir isod) oherwydd yr anabledd a nodir yn y cais, yna nid oes angen cefnogi eich cais. Rhaid i chi gwblhau rhan 2C.

Mae taliadau budd-dal yn cynnwys:

- cyfradd Uwch Elfen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl
- cyfradd Uwch Elfen Symudedd y Taliad Annibyniaeth Bersonol
- taliad annibyniaeth y Lluoedd Arfog.

Os ydych wedi'ch cadw yn yr ysbyty yn unol ag adrannau sifil Deddf Iechyd Meddwl 1983, rhaid i chi gwblhau rhan 2D. Rhaid i'ch cais gael ei gefnogi gan y canlynol:

- rheolwr yr ysbyty cofrestredig lle rydych yn cael eich cadw, neu eu cynrychiolydd awdurdodedig.

Datganiad preifatrwydd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth bersonol y byddwch yn ei rhoi gyda'r ffurflen gais hon.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd Data at ddibenion deddfwriaeth diogelu data. Eu sail gyfreithiol dros gasglu'r wybodaeth bersonol yw bod y prosesu'n hanfodol i gyflawni tasg er budd y cyhoedd fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol ar y Swyddog Cofrestru Etholiadol i brosesu eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. I gael rhagor o wybodaeth dylech gyfeirio at eu hysbysiad preifatrwydd. Gallwch ddod o hyd i'w gwefan a'u manylion cyswllt yn **comisiwnetholiadol.org.uk/cy/pleidleisiwr**

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

Dim ond un person all wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy gan ddefnyddio'r ffurflen hon

Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU. Pan fyddwch wedi cwblhau'r ffurflen, anfonwch hi i'ch swyddfa cofrestru etholiadol. Gallwch ddod o hyd i'w cyfeiriad yn **comisiwnetholiadol.org.uk/cy/pleidleisiwr**

1 Amdanoch chi

Enw(au) cyntaf (yn llawn)

Enw(au) canol (yn llawn)

Cyfenw

Eich cyfeiriad (lle rydych wedi cofrestru i bleidleisio)

Cod post

2 Pam ydych chi eisiau pleidlais drwy ddirprwy?

Darllenwch y nodiadau ar y tudalennau blaenorol a chwblhewch naill ai 2A, 2B, 2C neu 2D gan esbonio pam na allwch bleidleisio yn bersonol.

2A – Mae gennyf yr anabledd canlynol:

2B – Rwyf wedi fy nghofrestru'n ddall gan (yr awdurdod lleol canlynol):

2C – Rwyf yn derbyn taliad budd-dal. Nodwch pa fudd-daliadau a restrir ar dudalen 2 yr ydych yn ei dderbyn ac eich anabledd:

2D – Rwy'n cael fy nghadw yn (yr ysbyty canlynol):

3 Eich manylion cyswllt

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

Mae nodi eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn yn ei gwneud yn haws i ni gysylltu â chi ynglŷn â'ch cais.

4 Eich rhif Yswiriant Gwladol

Nodwch eich rhif Yswiriant Gwladol isod. Gallwch ddod o hyd iddo ar eich slip cyflog, P60, neu ar lythyrau am dreth, pensiynau neu fudd-daliadau.

Os na allwch ddarparu rhif Yswiriant Gwladol, dywedwch pam wrthym. Gallwch barhau i gyflwyno'r ffurflen hon a bydd rhywun yn cysylltu â chi. Gall gymryd yn hirach i brosesu eich cais.

5 Pwy ydych chi eisiau bod yn ddirprwy i chi?

Enw llawn

Perthynas deuluol (os o gwbl)

Cyfeiriad llawn

Cod post

E-bost neu rif ffôn (dewisol)

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

6 Am ba mor hir ydych chi eisiau pleidlais drwy ddirprwy?

Rwyf am bleidleisio drwy ddirprwy ym mhob etholiad y mae gennyf hawl i bleidleisio ynddo (ticiwch un blwch yn unig):

- ☐ hyd nes i mi ddweud fel arall (pleidlais barhaol drwy ddirprwy)
- ☐ ar gyfer etholiad a gynhelir ar

  D D M M B B B B

- ☐ ar gyfer y cyfnod

  rhwng D D M M B B B B

  a D D M M B B B B

7 Eich dyddiad geni a'ch datganiad

Datganiad: Rwyf wedi gofyn i'r person yr wyf wedi'u henwi fel fy nirprwy ac yn cadarnhau eu bod yn fodlon ac yn gallu cael eu penodi i bleidleisio ar fy rhan.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, mae'r manylion ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir. Rwy'n deall bod darparu gwybodaeth ffug ar y ffurflen hon yn drosedd, a gellir ei chosbi ar gollfarn drwy garchar am hyd at chwe mis a/neu ddirwy.

Dyddiad geni: Nodwch eich dyddiad geni yn y blychau isod gan ddefnyddio inc du.

D D M M B B B B

Llofnod: Llofnodwch isod gan ddefnyddio inc du, gan gadw o fewn y llinellau llwyd.

Os nad ydych yn gallu llofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol.

8 Dyddiad y cais

Dyddiad heddiw D D M M B B B B

9 Cefnogaeth ar gyfer y cais hwn

Darllenwch y nodiadau i weld pwy all gefnogi'r cais. Cwblhewch naill ai 9A, 9B, 9C, 9D neu 9E ar dudalennau 5 - 7:

Cwblhewch **9A** os ydych yn darparu gofal a/neu yn trin yr anabledd a nodir yn y cais, a'ch bod yn y canlynol:

- ymarferydd meddygol cofrestredig (gan gynnwys deintydd, optegydd, fferyllydd, osteopath, ceiropractydd neu seicolegydd)
- nyrs cofrestredig
- gweithiwr iechyd proffesiynol.

Cwblhewch **9B** os ydych yn gofalu, trin a/neu wedi trefnu gofal neu gymorth mewn perthynas â'r anabledd a nodir yn y cais a'ch bod yn:

- weithiwr cymdeithasol cofrestredig.

Cwblhewch **9C** os ydych:

- yn berson sydd wedi'i gofrestru fel rhywun sy'n rhedeg cartref gofal preswyl
- yn warden eiddo a ddarperir ar gyfer pensiynwyr neu bobl anabl.

Cwblhewch **9D** os ydych:

- yn rheolwr, neu yn gynrychiolydd awdurdodedig, yn yr ysbyty cofrestredig lle mae'r ymgeisydd yn cael ei drin.

Cwblhewch **9E** os ydych yn cefnogi'r cais ar gyfer ymgeisydd sy'n cael ei gadw yn yr ysbyty, ac rydych:

- yn rheolwr, neu yn gynrychiolydd awdurdodedig, yn yr ysbyty cofrestredig lle mae'r ymgeisydd yn cael ei gadw.

Nid oes angen i'r cais gael ei gefnogi os yw Rhan 2B neu 2C ar dudalen 3 yn berthnasol.

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

9A Os ydych yn gofalu a/neu yn trin yr anabledd a nodir yn y cais, a'ch bod:

- yn ymarferydd meddygol cofrestredig, (gan gynnwys deintydd, optegydd, fferyllydd, osteopath, ceiropractydd neu seicolegydd)
- yn nyrs cofrestredig
- yn weithiwr iechyd proffesiynol

Enw llawn y cefnogwr

Cyfeiriad y cefnogwr

Cod post

E-bost neu rif ffôn (dewisol)

Cymhwyster y cefnogwr

Datganiad:

- Rwy'n gofalu a/neu'n trin yr ymgeisydd am yr anabledd a nodir yn y cais
- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:
  - mae gan yr ymgeisydd yr anabledd a nodir yn y cais ac ni ellir disgwyl yn rhesymol iddo/iddi fynd i'w orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad i bleidleisio neu bleidleisio yno heb gymorth oherwydd yr anabledd hwnnw.
  - mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod penagored neu nes:

D D M M B B B B

Llofnod yr ymgeisydd

Dyddiad heddiw

D D M M B B B B

9B Os ydych yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig yn gofalu, trin a/neu wedi trefnu gofal neu gymorth mewn perthynas â'r anabledd a nodir yn y cais

Enw llawn y cefnogwr

Cyfeiriad y cefnogwr

Cod post

E-bost neu rif ffôn (dewisol)

Cymhwyster y cefnogwr

Datganiad:

- Rwy'n gofalu a/neu'n trin yr ymgeisydd, neu wedi trefnu gofal neu gymorth i'r ymgeisydd ar gyfer yr anabledd a nodir yn y cais
- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:
  - mae gan yr ymgeisydd yr anabledd a nodir yn y cais ac ni ellir disgwyl yn rhesymol iddo/iddi fynd i'w orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad i bleidleisio neu bleidleisio yno heb gymorth oherwydd yr anabledd hwnnw.
  - mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod penagored neu nes:

D D M M B B B B

Llofnod yr ymgeisydd

Dyddiad heddiw

D D M M B B B B

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

9C Os ydych yn berson sydd wedi'u cofrestru fel rhywun sy'n rhedeg cartref gofal preswyl, neu'n warden eiddo a ddarparwyd ar gyfer pensiynwyr neu bobl anabl

Enw llawn y cefnogwr

Cyfeiriad y cefnogwr

Cod post

E-bost neu rif ffôn (dewisol)

Cymhwyster y cefnogwr

Datganiad:

- Rwyf wedi fy awdurdodi i gefnogi'r cais hwn
- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:
  - mae gan yr ymgeisydd yr anabledd a nodir yn y cais ac ni ellir disgwyl yn rhesymol iddo/iddi fynd i'w orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad i bleidleisio neu bleidleisio yno heb gymorth oherwydd yr anabledd hwnnw.
  - mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod penagored neu nes:

D D M M B B B B

Llofnod yr ymgeisydd

Dyddiad heddiw

D D M M B B B B

9D Os ydych yn rheolwr neu'n gynrychiolydd awdurdodedig yr ysbyty lle mae'r ymgeisydd yn cael ei drin

Enw llawn y cefnogwr

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

Swydd y cefnogwr yn yr ysbyty lle mae'r ymgeisydd yn derbyn triniaeth

Datganiad:

- Rwyf wedi fy awdurdodi i gefnogi'r cais hwn
- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:
  - mae gan yr ymgeisydd yr anabledd a nodir yn y cais ac ni ellir disgwyl yn rhesymol iddo/iddi fynd i'w orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad i bleidleisio neu bleidleisio yno heb gymorth oherwydd yr anabledd hwnnw.
  - mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod penagored neu nes:

D D M M B B B B

Llofnod yr ymgeisydd

Dyddiad heddiw

D D M M B B B B

Cais i bleidleisio drwy ddirprwy yng Nghymru oherwydd anabledd

9E Os mai chi yw rheolwr neu gynrychiolydd awdurdodedig yr ysbyty lle mae'r ymgeisydd yn cael ei gadw

Enw llawn y cefnogwr

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

Swydd y cefnogwr yn yr ysbyty lle mae'r ymgeisydd yn cael ei gadw

Y ddarpariaeth statudol lle mae'r ymgeisydd yn cael ei gadw oddi tani

Datganiad:

- Rwyf wedi fy awdurdodi i gefnogi'r cais hwn
- Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred:
  - mae gan yr ymgeisydd yr anabledd a nodir yn y cais ac ni ellir disgwyl yn rhesymol iddo/iddi fynd i'w orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad i bleidleisio neu bleidleisio yno heb gymorth oherwydd yr anabledd hwnnw.
  - mae'r anabledd a nodir yn y cais yn debygol o barhau am gyfnod penagored neu nes:

D D M M B B B B

Llofnod yr ymgeisydd

Dyddiad heddiw

D D M M B B B B